COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 11 TACHWEDD 2020, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd CA Green – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| MC Clarke | SK Dendy | J Gebbie | A Hussain |
| JE Lewis | AA Pucella | G Thomas | CA Webster |
| DBF White | PJ White | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

PA Davies, M Jones, MJ Kearn a/ac T Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Rachel Pick | Swyddog Craffu |
| Tracy Watson | Swyddog Cymorth Craffu |

120. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

121. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNIAD: Bod Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 dyddiedig 16 Mawrth 2020 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

.

122. Y DIWEDDARAF AM Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Craffu. Dywedodd fod y Pwyllgorau Craffu wedi cael eu gohirio i ddechrau yn dilyn y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth wrth i'r Cyngor ganolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol mewn ymateb i bandemig Covid-19. Roedd adroddiad i'r Cabinet ym mis Mehefin yn gofyn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ystyried creu Panel Adfer Trawsbleidiol, a chymeradwywyd a sefydlwyd panel yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf gyda'r nod o lunio, hysbysu a chynghori'r Cabinet ar gynllunio adferiad y Cyngor i fod yn sail i gam adfer y pandemig. Cyfarfu'r Panel chwe gwaith ym mis Awst a chynhyrchodd argymhellion i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ym mis Medi, a adroddwyd i'r Cabinet wythnos yn ddiweddarach. Disgwylid ymateb ffurfiol gan y Cabinet cyn bo hir. Roedd y Panel Adfer bellach yn aros i Asesiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o'r Effaith ar y Gymuned ystyried y canfyddiadau, cyn dewis ei faes ffocws nesaf i'w archwilio'n fanylach.

Yna, mynychodd aelodau'r Pwyllgor hwn gyfarfod cyfunol Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 a 2, a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf, i ystyried adroddiadau ar Addysg Ôl-16 a Theithio gan Ddysgwyr. Gohiriwyd hyn o fis Mawrth. Cafodd argymhellion ar gyfer Addysg Ôl-16 eu hystyried gan y Cabinet ym mis Gorffennaf, a wnaeth benderfyniad ar yr opsiwn a ffefrir ac yna ystyried yr argymhellion ar Deithio gan Ddysgwyr ym mis Medi, gan ohirio'r penderfyniad i ddiwygio Polisi Teithio gan Ddysgwyr yr Awdurdod Lleol tan ar ôl yr adolygiad o'r pellteroedd statudol presennol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021.

Dechreuodd cyfarfodydd y Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb ym mis Gorffennaf. Roedd pedwar cyfarfod wedi'u cynnal hyd yma, a'r cyfarfod olaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Rhagfyr.

Cytunwyd ar y Rhestr o Gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn drefol sy'n weddill yn y Cyngor Blynyddol ym mis Medi, a chan fod y Panel Adfer bellach wedi'i sefydlu, cydnabuwyd y byddai angen i gyfarfodydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc, wrth symud ymlaen, ffocysu a bod yn strategol er mwyn osgoi dyblygu gwaith.

Ers hynny, cynghorwyd y Cyngor y byddai'r Setliad Ariannol Llywodraeth Leol gan Lywodraeth Cymru yn hwyrach na'r disgwyl. Golygai hyn y byddai angen i Bwyllgorau Craffu ystyried craffu ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar ôl i'r Cabinet ystyried y cynigion drafft ar 19 Ionawr, ac nid yn y cylch o gyfarfodydd ym mis Rhagfyr fel y bwriadwyd yn wreiddiol. O ganlyniad, byddai trefniadau'n cael eu gwneud i symud dyddiadau cyfarfodydd mis Ionawr i hwyluso hyn, a byddai cyhoeddiad yn cael ei wneud yn y Cyngor ar 18 Tachwedd.

Gyda'r newidiadau hyn mewn golwg, cynigiwyd, yn ei gyfarfod nesaf ar 14 Rhagfyr, y byddai'n amserol i'r Pwyllgor gael briff diweddaru llafar gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar effaith pandemig Covid-19 ar ardal y Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, a'r ymateb gweithredol.

O ran cyfarfodydd craffu ar ôl yr MTFS, gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith dros dro ar gyfer gweddill y calendr trefol o gyfarfodydd. Roedd angen rhoi pwyslais ar ystyried materion fel effaith, risg, perfformiad, canfyddiad y gyllideb a'r gymuned wrth nodi pynciau i ymchwilio iddynt. Byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle ym mhob cyfarfod i ailedrych ar ei Flaenraglen Waith ac awgrymodd y Swyddog Craffu y gallai'r Aelodau ddymuno aros tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor i bennu pynciau pellach, yn dilyn y diweddariad llafar gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Gohiriwyd yr Hyfforddiant Sgiliau Cwestiynu ar gyfer Aelodau Craffu a’r Hyfforddiant i Gadeiryddion Craffu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) oherwydd y cyfyngiadau symud cenedlaethol. Roedd CLILC bellach yn gallu cynnig yr hyfforddiant hwn drwy Microsoft Teams. Cynigiwyd felly y dylid trefnu dwy sesiwn: un sesiwn o Sgiliau Cwestiynu Craffu ar gyfer pob Aelod Craffu ac un sesiwn o Hyfforddiant i Gadeiryddion Craffu i holl Gadeiryddion Pwyllgorau a Phanelau. Roedd y dyddiadau i'w cadarnhau.

Ni chafwyd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol yn yr eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Ni nodwyd unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith ar gyfer gweddill y calendr trefol o gyfarfodydd gan ddefnyddio'r ffurflen y cytunwyd arni, a gellid ailedrych ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNIAD: Bod y Pwyllgor wedi cadarnhau'r eitemau cychwynnol arfaethedig ar gyfer Blaenraglen Waith y Pwyllgor a nodir ym mharagraffau 4.3 a 4.4 o'r adroddiad.

123. ADRODDIAD AR ENWEBU HYRWYDDWR RHIENI CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn i'r Pwyllgor enwebu un Aelod fel ei Hyrwyddwr Rhieni Corfforaethol i gynrychioli'r Pwyllgor fel person gwahoddedig i gyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet dros Faterion Rhieni Corfforaethol.

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau o'r llawr, ac yn dilyn hynny cafwyd

PENDERFYNIAD: Bod y Cynghorydd D White yn cael ei enwebu i gynrychioli'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 fel person gwahoddedig i gyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet dros Faterion Rhieni Corfforaethol.

124. ENWEBIAD I BANEL CRAFFU'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn i'r Pwyllgor enwebu un Aelod i eistedd ar Banel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau o'r llawr, ac yn dilyn hynny cafwyd

PENDERFYNIAD: Bod y Cynghorydd S Dendy yn cael ei enwebu fel cynrychiolydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 i fod yn Aelod o Banel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

125. EITEMAU BRYS

Dim.